**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 GORFFENNAF 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mrs. Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa);

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen** **12:00**

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon)

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael ei ailgyflwyno ar ryw adeg yn y dyfodol yn y Cynulliad hwn, a bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn monitro ac yn llywio'r Comisiwn fel bo'n briodol.

2.2. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr i arsylwi yn un o gyfarfodydd y Comisiwn, gan awgrymu cyfarfod mis Medi, yn amodol ar ei fod ar gael.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Gorffennaf 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 5) Arolygon Etholiadol – Ystadegau Etholiadol – Cysylltwyd â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol ac mae'r gwaith o gasglu ystadegau ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yn parhau. **Dirprwy Brif Weithredwr a Swyddogion Arolygon**
- (Mater 7) Staffio – recriwtio Dau Swyddog Arolygon – Mae'r broses o recriwtio dau Swyddog Arolygon ychwanegol yn agored hyd nes 3 Awst ar gyfer swyddi i gychwyn ym mis Hydref. **Rheolwr Cymorth Busnes**

- (Mater 9) Teithio a Chynhaliaeth – Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn yn y cyfarfod nesaf. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 11) Gwasanaethau Cyfreithiol – Disgwyl ymateb gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 12) Safonau'r Gymraeg – Derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol gan y Comisiwn yn ddiweddar, a bydd papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn. **Rheolwr Cymorth Busnes a'r Prif Weithredwr.**
- (Mater 16) Adroddiad Blynyddol – Bydd drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn i'w gymeradwyo, yn amodol ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg. **Prif Weithredwr.**
- (Mater 17) Strategaeth TG – Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn yn ddiweddarach, yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â'i strategaeth TG i'r dyfodol. **Dirprwy Brif Weithredwr.**

5. **Arolygon Etholiadol – Amserlen a Chyllideb**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Gorffennaf 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

5.2. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi creu amserlen o arolygon ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Lleol i'w chwblhau erbyn mis Mawrth 2021, yn unol â chyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet. Crëwyd y rhaglen gan ddefnyddio'r un fethodoleg – yr ymgynghorwyd ynglŷn â hi yn 2013 – gyda rhai mân addasiadau i'r paramedrau.

5.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ddefnyddio'r ystadegau mwyaf diweddar wrth lunio'i amserlen.

5.4. **Cytunodd** y Comisiwn i'r amserlen a gynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth sy'n ymgorffori bwriadau Ysgrifennydd y Cabinet, ond sydd hefyd yn cynnwys bwriadau Cyngor Sir Fynwy i gwblhau ei Arolwg Cymunedol, a ataliodd yn 2013.

5.5. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'n darparu'r amserlen i Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am gymeradwyaeth, yn ychwanegol at friffio nifer o randdeiliaid allweddol cyn cyhoeddi, yn amodol ar y gymeradwyaeth ddywededig gan Ysgrifennydd y Cabinet. **Nododd** y Comisiwn y byddai'r Amserlen yn cael ei hymgorffori yn y ddogfen Polisi ac Arfer.

**6. Arolygon Etholiadol – Polisi ac Arfer**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Gorffennaf 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y ddogfen Polisi ac Arfer wedi'i diweddaru a **Chytunodd**, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau gramadegol, yn ogystal â'r diwygiad canlynol i baragraff 51, i ddarllen fel a ganlyn;

- Ailddrafftio paragraff 51 – <u>*"…Bydd y Comisiwn yn ystyried nodweddion iaith Gymraeg cymuned wrth gynnal arolwg*</u>*. Bydd y Comisiwn yn defnyddio data'r cyfrifiad i geisio sicrhau nad yw'n rhoi cynigion gerbron a fyddai'n tanseilio'r*

*defnydd o'r Gymraeg." / "…<u>The Commission will take into account the Welsh language characteristics of a community when conducting a review</u>. The Commission will utilise the census data to attempt to ensure that it does not put forward proposals which would undermine the use of the Welsh language."*

6.3. **Derbyniodd** y Comisiwn y polisi, a bydd yn ei gynnwys yn y briff i Ysgrifennydd y Cabinet a rhanddeiliaid allweddol eraill fel sail y dull a ddefnyddir gan y Comisiwn i gynnal yr arolygon etholiadol hyn. **Nododd** y Comisiwn y byddai'r Amserlen a'r Model Maint Cynghorau yn cael eu hymgorffori yn y ddogfen Polisi ac Arfer.

## 7. Arolygon Etholiadol – Model Maint Cynghorau

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Gorffennaf 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y model Maint Cynghorau diweddaredig, sydd wedi'i ddiweddaru gyda'r ystadegau mwyaf diweddar a ddarparwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol a'r 22 o Awdurdodau Lleol.

7.3. **Cytunodd** y Comisiwn y Model Maint Cynghorau, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau gramadegol.

7.4. **Derbyniwyd** y model gan y Comisiwn a bydd yn ei gynnwys yn y briff i Ysgrifennydd y Cabinet a rhanddeiliaid allweddol eraill fel y sail penderfynu ar faint y Cynghorau amrywiol a fydd yn cael eu creu trwy gydol yr arolygon hyn. **Nododd** y Comisiwn y byddai'r Polisi Maint Cynghorau yn cael ei ymgorffori yn y ddogfen Polisi ac Arfer.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Gorffennaf 2016 gan y Rheolwr Cyllid yn ymwneud â Rheolaeth Risg y Comisiwn.

8.2. **Nododd** y Comisiwn y newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau o ran y rhaglen arolygon etholiadol arfaethedig, a datblygu strategaeth TG y Comisiwn ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.

8.3. **Cytunodd** y Comisiwn i israddio CR6, CR8, CR9 a CR11 i'r Gofrestr Risgiau Gweithredu.

## 9. Adroddiad ar y Gyllideb

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Gorffennaf 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a **Derbyniodd** y bydd newidiadau i'r cyllid a ddyrennir i gategorïau cyllideb amrywiol yn y misoedd i ddod, fel ymateb i'r bwriad i recriwtio staff i lenwi'r ddwy swydd Swyddog Arolygon.

## 10. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Gorffennaf 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. **Nodwyd** yr Adroddiad.

**11. Calendr Digwyddiadau**

11.1. **Nodwyd** y Calendr Digwyddiadau.

**12. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall**

12.1. Dim

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 23 Awst 2016**